# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 2 Tachwedd 2001

**R yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**

**W yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Faterion Gwledig

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Yn sgil ei ateb i WAQ 13562, a wnaeth ei adran erioed geisio tystiolaeth ddogfennol i brofi a aned y gwartheg a oedd yn cael eu claddu ym Mhenhesgyn cyn neu ar ôl 1 Awst 1996. (WAQ13805)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Yn sgil ei ateb i WAQ13562, o ran y cyfreithiau sy'n rheoli gwartheg a aned cyn 1 Awst 1996, a wnaeth ei adran geisio canfod oed y gwartheg a gladdwyd ym Mhenhesgyn. (WAQ13806)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Yn sgil ei ateb i WAQ13562, a wnaiff ddatganiad ynghylch argymhelliad Asesiad Risg Milfeddygol Rhif 2 na ddylid claddu gwartheg. (WAQ13807)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Yn sgil ei ateb i WAQ13562, pa gamau y mae wedi'u cymryd i ganfod a gladdwyd unrhyw dda byw a oedd yn hyn na phump oed ym Mhenhesgyn . (WAQ13808)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Yn sgil ei ateb i WAQ13562, a gladdwyd unrhyw dda byw a oedd yn hyn na phump oed ym Mhenhesgyn. (WAQ13809)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Yn sgil ei ateb i WAQ13562, beth yw fformat yr wybodaeth sydd gan ei adran ynghylch y da byw a gladdwyd ym Mhenhesgyn. (WAQ13810)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Pa gynlluniau sydd ganddo i fynd i'r afael â'r gwartheg dros bump oed a gladdwyd ar gam ar safle Penhesgyn. (WAQ13811)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Yn sgil ei ateb i WAQ13562, pam nad anfonwyd y gwartheg a gladdwyd ym Mhenhesgyn i'w rendro. (WAQ13812)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gyhoeddiadau newydd a gaiff eu lansio gan y Cynulliad Cenedlaethol i egluro polisi gwledig cyn diwedd y flwyddyn ariannol hon, a beth fydd cost amcangyfrifedig hynny. (WAQ13813)

**William Graham (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog amlinellu statws risg ardaloedd yng Nghymru. (WAQ13815)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** A wnaiff ymhelaethu ar ei ddatganiad yn y cyfarfod llawn ar 25 Hydref 2001 ei bod yn anodd i ffermwyr gael pris teg mewn arwerthiant. (WAQ13816)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros yr Amgylchedd

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa ymrwymiad ariannol a ofynnir gan y Cynulliad Cenedlaethol neu unrhyw un o'r cyrff cyhoeddus neu asiantaethau a noddir ganddo, i gwrdd â chostau cylchgrawn Natur Cymru a gyhoeddir gan Grwp Amrywiaeth Cymru. (WAQ13814)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A fyddai'r Gweinidog yn cadarnhau ai peidio ei bod wedi cael copi o adroddiad sy'n manylu ar gyflwr adeilad Ysgol Penlan yn Abertawe. (WAQ13817)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A fyddai'r Gweinidog cystal â rhoi copi o unrhyw adroddiad a gafodd mewn perthynas â chyflwr adeilad Ysgol Penlan yn llyfrgell y Cynulliad i gael ei archwilio. (WAQ13818)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Ddatblygu Economaidd

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A fyddai'r Gweinidog yn gwneud datganiad ar gymorth cadwyn gyflenwi'r diwydiant moduron yng Nghymru. (WAQ13819)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A fyddai'r Gweinidog yn gwneud datganiad ar y datblygiadau diweddaraf yn Fforwm Moduron Cymru. (WAQ13820)